

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

16 Rhagfyr 2020

Yn Bresennol: Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Cynghorydd P Harries, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R
Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

[Ymunodd Dr M Havard a'r Cynghorydd A Wilcox â'r cyfarfod yn
ystod y cyflwyniad ar Reoli Llwybr yr Arfordir a'r Rhwydwaith Hawliau
Tramwy Cyhoeddus (gweler Cofnod 4)]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.45am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd
ML Evans. Roedd Dr M Havard a'r Cynghorydd A Wilcox wedi rhoi
gwybod y byddent yn cyrraedd y cyfarfod yn hwyr.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd Dr R Plummer bod ganddo fuddiant personol ond heb fod yn
rhagfarnus yn adroddiad 17/20 – Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn
Diweddu ar yr 31^{ain} o Hydref 2020.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Fedi 2020 i'w
cadarnhau a'u dilysu.

Nodwyd gwall teipio yn ail baragraff Cofnod 6 y cofnodion Saesneg - dylai'r
frawddeg gyntaf fod wedi cyfeirio at y risg o 'attack' nid 'attach'. Hefyd yn y
paragraff olaf ond un ar dudalen 5 o'r cofnodion (Adroddiad Perfformiad
Cofnod 8), dylai'r cyfeiriad at fewnlifiad o geisiadau cynllunio oherwydd
cynnydd mewn ffioedd fod wedi darllen cyn cynnydd mewn ffioedd. Fodd
bynnag, aeth yr Aelod rhagddo i ddweud mai mân gywiriadau oedd y rhain
ac, ar y cyfan, ei bod am gofnodi ei chanmoliaeth i'r swyddogion dan sylw
am safon cofnodion yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
ar y 23ain o Fedi 2020 cyn belled ag y gwneir y diwygiadau uchod.

4. Rheoli Llwybr yr Arfordir a'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben 2020

Yn absenoldeb y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy, cyflwynwyd yr
adroddiad gan y Swyddog Llwybr Cenedlaethol a'r Swyddog Hawliau
Tramwy. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod ar y 24^{ain} o Fawrth wedi
cau rhannau helaeth o Lwybr Arfordir Sir Benfro o dan bwerau argyfwng
Llywodraeth Cymru, gan nodi nad oedd cau Llwybr yr Arfordir wedi



digwydd ers Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001. Eglurwyd mai'r rheswm am y penderfyniad oedd i atgyfnerthu'r neges bod Sir Benfro ar gau i ymwelwyr. Serch hynny, roedd y rhwydwaith o lwybrau mewndirol wedi parhau ar agor fel bod y trigolion yn cael cyfle i ymarfer ar garreg eu drws. Roedd cydymffurfio â'r cau wedi bod yn dda ar y cyfan, ond serch hynny, gwnaed yr Awdurdod yn ymwybodol o faterion megis tresmasu a diffyg cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth. Roedd rhai tiffeddianwyr oedd â hawliau tramwy cyhoeddus yn mynd heibio'n agos at eu cartrefi wedi mynegi eu pryderon, a darparwyd arwyddion i roi cyfarwyddyd i gerddwyr, ac i leddfu pryderon y tiffeddianwyr. Roedd ail-agor y llwybr yn bwysig i adfer economi'r sir, a gwnaed llawer o waith o ran asesiadau risg a mesurau rheoli llystyfiant cyn y gallai hyn ddigwydd ar y 29^{ain} o Fehefin.

Aeth y swyddogion ymlaen i egluro bod saith peiriant cyfrif cuddiedig ar lwybr yr arfordir oedd wedi cyfrif nifer y cerddwyr ers 2006, ac roedd y rhain yn dangos gostyngiad o 94% yn y defnydd yn ystod mis Ebrill a mis Mai, ond defnydd uchel iawn o'r llwybr dros yr haf. Gwelwyd cynnydd mawr yn ystod mis Medi yn benodol yn nifer y defnyddwyr o gymharu â 2019. Roedd ffigurau manwl wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ac roedd y ffigurau hyn yn dangos pa mor bwysig yw llwybr yr arfordir i economi'r Parc Cenedlaethol a'i werth i'r trigolion.

Gan ddiolch i'r swyddogion am adroddiad rhagorol a'u llongyfarch ar eu hymateb i'r pandemig, dywedodd rhai Aelodau nad oeddent serch hynny o blaid cau llwybr yr arfordir yn gyffredinol, a holwyd ynghylch y cydlynu a'r cyfathrebu rhwng y gwahanol asiantaethau yng Nghymru cyn dod i'r penderfyniad i gau, ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad.

Dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod bod y Prif Weithredwr wedi bod mewn cysylltiad agos ag ef cyn gwneud y penderfyniad, a hefyd gyda'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill. Cytunodd y Prif Weithredwr bod tri Parc Cenedlaethol Cymru yn benodol wedi cydweithio'n agos, a hefyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Cadw, ac ati. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn hapus gyda'r penderfyniadau a wnaed, ond o edrych yn ôl efallai nad oedd angen cau ar y fath raddfa helaeth.

Hefyd roedd yr Aelodau wedi canmol y defnydd a wnaed o arwyddion a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r perchnogion tir, ac ychwanegu bod y cyfnod clo wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y rhwydwaith o hawliau tramwy. Hefyd roeddent yn gwerthfawrogi'r modd yr oedd swyddogion wedi rhoi gwybod iddynt am benderfyniadau allweddol mewn modd amserol.

NODWYD.



5. Effaith COVID-19 ar y Gwasanaethau i Ymwelwyr

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr yr Aelodau bod pob adeilad yr APCAP wedi'u cau, mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, a bod y staff yn cael eu cynorthwyo i weithio gartref lle bynnag y bo modd. Roedd hyn yn cynnwys bron pob un o'r timau Gwasanaethau Ymwelwyr fu'n gweithio yn y lle cyntaf o gartref, ond a oedd yn y pen draw wedi'u rhoi ar ffyrlo (yn llawn neu'n rhannol) tan i'r safleoedd atyniad ymwelwyr gael eu hail-agor fis Gorffennaf.

Roedd yr adroddiad yn dangos y gostyngiad trychinebus yn nifer yr ymwelwyr, gan amlygu gostyngiad o 50% yn y gweithgaredd twristiaeth ar draws y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r addasiadau materol oedd rhaid eu gwneud er mwyn croesawu ymwelwyr yn ôl, er bod eu nifer lawer iawn yn llai. Hefyd rhaid oedd adolygu'r gweithrediadau manwerthu, gan leihau maint y stoc, er mwyn rheoli llif yr ymwelwyr yn well. Fodd bynnag, roedd y safleoedd wedi parhau i gefnogi busnesau lleol drwy gadw eu cynnyrch ar werth yn eu stoc. Hefyd trefnwyd mentrau cymunedol i ddenu'r trigolion lleol i fwynhau'r atyniadau tra bod y rheiny yn dawelach na'r arfer.

Roedd tîm Oriol y Parc wedi parhau i weithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ddod o hyd i atebion i agor yr oriel mewn modd Covid-ddiogel. Roedd llawer o'r gofod arddangos ehangach hefyd wedi'i ailagor i gefnogi artistiaid lleol i arddangos a gwerthu eu gwaith.

Un o'r meysydd llwyddiant go iawn yn ystod y pandemig oedd gweithredu system docynnau ar-lein ar gyfer Castell Henllys a Chastell Caerw i gefnogi'r ymateb 'Prawf, Olrhain a Diogelu' yng Nghymru. Byddai'r gwersi a ddysgwyd yn werthfawr wrth gynnal digwyddiadau â thocynnau ar draws gwaith yr Awdurdod yn y dyfodol.

Er gwaethaf gallu gwneud iawn am y rhan fwyaf o'r incwm a gollwyd, roedd yr Awdurdod wedi penderfynu cau Castell Caerw a Chastell Henllys dros dro tan 2021 er mwyn cadw'r colledion i'r lleiaf posibl. Roedd rheoliadau COVID-19 diwygiedig pellach wedi dod i rym ers hynny yng Nghymru ac o ganlyniad roedd Oriol y Parc hefyd wedi'i chau. Fodd bynnag, roedd y timau wedi dechrau cynllunio ar gyfer y tymor nesaf, ac wedi dysgu o ddulliau newydd a brofwyd yn ddiogel, gan gynnwys cynnal digwyddiadau rhithiol, ac roedd y rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau yn 2021 bellach yn cael ei chynllunio.

Roedd y Cyfarwyddwr wedi talu teyrnged i'r staff ymroddedig oedd wedi gweithio'n galed i roi'r newidiadau diogelwch ar waith, ac roedd yr adborth i'r mesurau rheoli wedi cael derbyniad da yn gyffredinol ar draws pob safle.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am bapur defnyddiol, a gofynnwyd am i werthfawrogiad yr Aelodau gael ei drosglwyddo i'r staff ac i'r



gwirfoddolwyr. Dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod y byddai'n cysylltu â'r Cyfarwyddwr i anfon cydnabyddiaeth at Dinah oedd wedi'i henwi'n benodol yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelodau hefyd wedi nodi pa mor bwysig yw gwaith tîm gan nodi'r cyfeiriadau at ddulliau newydd o ymgysylltu ag ymwelwyr yn y dyfodol. Atebodd y Cyfarwyddwr bod nifer o ddigwyddiadau pop-yp wedi'u treialu, eu hyrwyddo ar fore'r digwyddiad gyda chyfleusterau archebu ar-lein, a gwelwyd bod y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus.

NODWYD

6. Cyflwyno Canlyniadau Gwerthuso Diwrnod Archaeoleg 2020

Roedd yr Archaeolegydd Cymunedol wedi rhoi cyflwyniad oedd yn gwerthuso Diwrnod Archaeoleg 2020 a drefnwyd ar y cyd â Planed. Roedd rhwng 160 a 190 o bobl wedi gwyllo'r digwyddiad yn fyw, ac roedd y cyflwyniadau unigol yn dal i fod ar gael ar y sianel YouTube lle roedd 3.7k a mwy wedi gwyllo'r arlwy hyd yn hyn. Roedd 38 o ffurflenni adborth hefyd wedi'u dychwelwyd, oedd yn dangos bod y cyflwyniadau wedi cael derbyniad da. Roedd mwyafrif y gwylwyr yn dod o Sir Benfro, ond roedd rhai wedi ymuno o leoedd eraill yn y DU ac o bosibl o dramor hefyd, gan olygu bod pobl na fyddent fel arfer wedi gallu mynychu yn bersonol wedi gallu bod yn rhan o'r digwyddiad. Roedd yr adborth wedi awgrymu bod awydd i'r digwyddiad gael ei gyflwyno'n gorfforol ac yn rhithiol yn y dyfodol, gyda'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i rwydweithio a hefyd i gael mynediad i'r stondinau llyfrau a'r arddangosfeydd sydd ar gael fel arfer.

Yn gyffredinol, roedd y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant, ac wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth ac ymgysylltu, ac roedd nifer o wersi wedi'u dysgu fyddai'n dylanwadu ar y digwyddiadau yn y dyfodol. Anogwyd y mynychwyr i gyfrannu at Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn lle talu am fynychu, a derbyniwyd £310 mewn rhoddion y gobeithid y gellid ei roi tuag at waith archaeoleg yn y Parc Cenedlaethol.

Roedd y Cydlynnydd Gweithgareddau a Digwyddiadau hefyd yn bresennol yn y cyfarfod ac eglurodd bod yr Awdurdod, yn ystod y cyfnod clo, wedi cael profiad o gynnal digwyddiadau rhithiol. Roedd mwy o ddigwyddiadau rhithiol ar y gweill ar bynciau eraill, megis adar a daeareg, fyddai'n galluogi'r Awdurdod i estyn allan i gynulleidfa ehangach.

Dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod ei fod wedi mynychu ar y diwrnod a'i fod am longyfarch y tîm am drefnu digwyddiad rhagorol. Dywedodd Aelodau eraill, er nad oeddent wedi gallu mynychu, eu bod wedi gwyllo rhai o'r cyflwyniadau ers hynny, oedd wedi bod yn gyfle gwych. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o hyn, ac o adnoddau digidol eraill gan fyfyrwyr ac ymwelwyr â'r ardal. Barnent bod hyn yn



syniad arloesol oedd wedi helpu i ennyn ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, a'u gobaith oedd y byddai dull cyfunol (digwyddiad corfforol a rhithiol) yn bosibl yn y dyfodol.

NODWYD.

7. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diwedd 31^{ain} Hydref 2020

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran - roedd yr adran gyntaf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig, oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a chynllunio'r adferiad wedi'r feirws, tra bod yr ail adran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy, a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r adran hon, wrth gamu ymlaen i'r dyfodol, yn rhoi mewnwelediad i effaith COVID-19 a'r adferiad ar gyflawni yn y tymor hir ac ar y prosiectau ar draws yr amcanion llesiant.

Dywedwyd efallai y gellir cymryd camau ymlaen ar rai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, digon posibl na ellir cymryd unrhyw gam ymlaen ar nifer o'r gweithgareddau, yn enwedig y rhai sy'n golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, hyd nes i'r cyfyngiadau gael eu codi yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mewn rhai achosion byddai hyn yn golygu efallai na fyddai gweithgareddau o dan rai ffrydiau gwaith yn cael eu cynnal yn ystod 2020/21.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Hydref 2020 o ran data misol ac ystadegau chwarter 1 - 2 (Ebrill - Medi) ar rai setiau data. Roedd eglurhad ar y statws Coch Melyn Gwyrdd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu effaith codi'r cyfyngiadau ar y cychwyn, gan ail-gychwyn gwasanaethau wyneb yn wyneb wedi'u haddasu, a hynny mewn sawl maes, yn unol â'r asesiadau risg, yn ogystal ag effaith y cyfnod toriad tân yn ystod mis Hydref / Tachwedd. Hefyd aeth yr adroddiad ymlaen i nodi effaith y mesurau COVID 19 ar y system gynllunio gan nodi canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol oedd yn dangos sgôr ar y lefel coch, ar 46.77%, sy'n sylweddol is na'r targed. Gwaethygyd y sefyllfa hon gan broblem sylweddol technoleg gwybodaeth oedd wedi effeithio ar gofrestru ceisiadau cynllunio newydd a cheisiadau cysylltiedig. Er bod hyn bellach wedi'i ddatrys, rhagwelwyd y byddai effaith ar ystadegau Ch3.

Hefyd nodwyd bod y system ffôn newydd wedi'i gweithredu, ac roedd hyn wedi helpu i gynorthwyo gweithio gartref a chyfathrebu. Byddai camau ychwanegol i gynnwys y tair canolfan yn cael eu gweithredu yn 2021.



Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn amlinellu peth o'r gwaith a wnaed tuag at ddatblygu'r amcanion tymor hir.

Roedd yr Aelodau'n hapus â'r hyn y barnent oedd yn adroddiad defnyddiol a hawdd ei ddarllen, ac roeddent yn hyderus bod y swyddogion yn mynd i'r afael â'r materion a glustnodwyd. Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y swyddog nad oedd hi wedi bod mewn cyswllt â'r grŵp di-garbon yn y Ganolfan Technoleg Amgen ac y byddai unrhyw gyswllt y gellid ei wneud i'w groesawu.

NODWYD

8. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg, ac amlygwyd y newidiadau a wnaed ers yr adroddiad blaenorol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad, oedd yn ddefnyddiol iawn iddynt. Gwnaed nifer o sylwadau ganddynt, a gofynnwyd am i ystyriaeth gael ei rhoi i adolygu'r risg 40 i amlygu'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod yn ddiweddar i benodi Swyddog Diogelu Data newydd; risg 47 i amlygu'r ffaith bod cynllunio a'r paratodau am bandemig bellach wedi gwella dipyn, er nad oedd y pandemig ei hun dan reolaeth; ac yn olaf, bod y lliniaru a ddarperir mewn perthynas â risg 49 yn cael ei arall-eirio. Gofynnwyd hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio ar gyfer olyniaeth, a gallu'r Awdurdod i recriwtio staff. Rhoddwyd y wybodaeth hon gan y Prif Weithredwr a ddywedodd mai'r risg mwyaf sy'n wynebu'r Awdurdod yw lle mai un swyddog yw'r arbenigwr yn eu maes gwaith.

NODWYD

9. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

10. Gair o Ddiolch

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y flwyddyn, i Gadeirydd yr Awdurdod ac i'r Prif Weithredwr am eu harweiniad ac am rannu gwybodaeth yn amserol, ac i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau i'r cyfarfod. Roedd hefyd am ddiolch i'r holl swyddogion ac i'r staff hynny nad ydynt yn ymddangos yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, yn ogystal ag i'r holl wirfoddolwyr. Dymunodd Nadolig diogel a da i bawb, ac y byddai rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd yn 2021.



Cytunodd y Prif Weithredwr bod y staff wedi gwneud gwaith gwych, pob un yn cyfrannu yn ei ffordd ei hun mewn amgylchiadau anodd. I gydnabod hyn, roedd y Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno i roi diwrnod ychwanegol o wyliau i bob aelod o staff ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd gyda Swyddfeydd yr Awdurdod yn ailagor ar Ionawr y 5^{ed}, yn hytrach nag ar y 4^{ydd}.

NODWYD.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021 heb eu diwygio.

